# Adroddiad Blynyddol
# Safonau'r Gymraeg

Cymraeg

Ebrill 2025 - Mawrth 2026

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council




**Os hoffech gopi o'r ddogfen hon mewn fformat arall cysylltwch â / If you would like this document in another format contact:**

Jeśli chciał(a)by Pan(i) otrzymać ten dokument w języku polskim, prosimy o kontakt poprzez:

Jeigu jūs pageidaujate šį dokumentą gauti lietuvių kalba, prašome kreiptis:

Dacă doriți acest document în limba română, vă rugăm să contactați:

Ha magyarul szeretné megkapni ezt a dokumentumot, kérjük, vegye fel a kapcsolatot:

您如果想得到這份文件的粵語版本請聯絡

01352 703020

Gwasanaethaucwsmer@siryfflint.gov.uk
customerservices@flintshire.gov.uk

# Safonau'r Gymraeg
# Adroddiad Monitro Blynyddol
# Ebrill 2025 – Mawrth 2026


**Crynodeb Gweithredol**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 5 |
| 2. | Cefndir a'r sefyllfa bresennol | 5 |
| 3. | Cydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2025/26 | 6 |
| 4. | Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg | 11 |
| 5. | Sgiliau a hyfforddiant y Gymraeg | 16 |
| 6. | Cwynion | 19 |
| 7. | Blaenoriaethau'r Dyfodol a Chamau Gweithredu | 21 |


**Atodiadau:**


| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Adnodd Hunanasesu Sgiliau'r Gymraeg |
| Atodiad 2 | Proffil sgiliau Cymraeg y gweithlu ym mis Mawrth 2026 |

# Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg
# Ebrill 2025 - Mawrth 2026
# Crynodeb Gweithredol

Croeso i'n Hadroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer cyfnod 2025/26, sy'n nodi sut ydym ni wedi bodloni'r Safonau. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n cyflawniadau allweddol a meysydd lle mae angen i ni wella hefyd.

Rydym yn falch o ddweud, yn ystod y 12 mis diwethaf:

- Agorwyd ein hysgol Gymraeg newydd gyntaf "Ysgol Gymraeg Croes Atti", sy'n cynnig rhaglen drochi'r Gymraeg hefyd i gefnogi disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg. Bydd ystafell gymunedol bwrpasol yn darparu cyfleusterau ar gyfer grwpiau blynyddoedd cynnar ac ar gyfer defnydd y gymuned ehangach.
- Er mwyn codi proffil ein gwasanaethau Cymraeg, roedd gennym stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam.
- Rydym yn parhau i leihau nifer a chanran y gweithwyr sy'n dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl. Gostyngodd hyn o 985 (33.10%) o weithwyr ym mis Mawrth 2025 i 871 (28.67%) ym mis Mawrth 2026.
- Mae nifer a chanran y gweithwyr sy'n dweud bod eu sgiliau Cymraeg yn cyrraedd lefel 5 wedi cynyddu o 113 (3.80%) yn 2025 i 127 (4.18%) ym mis Mawrth 2026. Mae hyn yn dangos ein bod yn parhau i gynyddu, yn raddol, nifer a chanran y gweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Rydym wedi cymryd mwy o gamau i fynd ati i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg trwy:
    - ddefnyddio ychydig o Gymraeg mewn negeseuon cyfryngau cymdeithasol Saesneg; a
    - chyhoeddi fideos i hyrwyddo'r Gymraeg.

Rydym yn gwybod bod angen i ni barhau i wneud cynnydd a'n blaenoriaethau ar gyfer 2026/27 yw:

- Datblygu Hwb Cymraeg newydd ar y fewnrwyd.
- Parhau i gwblhau hunanasesiadau yn erbyn Safonau'r Gymraeg i nodi meysydd diffyg cydymffurfio a lle mae angen i ni wella.
- Parhau i adolygu argymhellion Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg er mwyn nodi cyfleoedd pellach i gyflwyno enwau Cymraeg yn y Sir.
- Datblygu hyder gweithwyr i ddefnyddio eu Cymraeg - beth bynnag fo lefel eu sgiliau.

Neal Cockerton
Prif Weithredwr

Y Cynghorydd Mared Eastwood
Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden

# Safonau'r Gymraeg
# Adroddiad Monitro Blynyddol 2025/26

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio ar y Cyngor yn 2016, yn nodi'r 171 o Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy. Mae'r safonau yn nodi'r hyn a ddisgwylir i'r Cyngor ei wneud a'i ddarparu yn Gymraeg. Mae Hysbysiadau Cydymffurfio yn unigryw i bob sefydliad ac yn adlewyrchu proffil ieithyddol y gymuned leol a'r capasiti sefydliadol i fodloni'r safonau.

1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn, fel y nodir yn safonau 158, 164 a 170. Mae rhestr lawn o'r safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy ar gael yma. Mae'r adroddiad hefyd yn cael ei dderbyn yn flynyddol gan Gabinet y Cyngor i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi.

1.3 Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn berthnasol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Mae'n nodi'r camau rydym wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r Safonau a'r meysydd y mae angen i ni eu gwella.

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, ochr yn ochr â'r Saesneg, gan sefydlu fframwaith cyfreithiol i'w gwneud yn ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i gydymffurfio â safonau newydd y Gymraeg. Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg yn adeiladu ar yr ymrwymiad blaenorol a wnaed gan y Cyngor yn ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol.

2.2 Dyma amcanion y safonau:

- Gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn y Gymraeg
- Cynyddu'r defnydd y mae pobl yn ei wneud o wasanaethau Cymraeg
- Ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran yr iaith Gymraeg
- Sicrhau bod lefel briodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn yr un sectorau

2.3 Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg bwerau i ymchwilio a chymryd camau yn erbyn y sefydliadau hynny sy'n methu â chydymffurfio â'r Safonau. Mae hyn yn cynnwys gosod cosbau ariannol am ddiffyg cydymffurfiaeth.

2.4 Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae'r Ymgynghorydd Polisi Strategol yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad Safonau'r Gymraeg. Mae ein Rhwydwaith Iaith Gymraeg, Rhwydwaith yr Iaith, yn darparu arweinyddiaeth strategol ac yn cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid. Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden yw Cefnogwr y Gymraeg.

2.5 Gellir gwneud cwynion am fethu â chyrraedd Safonau'r Gymraeg drwy ddefnyddio ein Gweithdrefn Gwyno. Gall gweithwyr fynegi pryderon trwy Bolisi'r Cyngor, Cymraeg yn y Gweithle a Gweithdrefnau Cwyno'r Cyngor.

## 3.0 Cydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2025/26

3.1 Mae'n ofynnol i ni adrodd ar ein trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r safonau canlynol:

- Safonau cyflenwi gwasanaethau
- Safonau llunio polisi
- Safonau gweithredol

Mae'r camau a gymerwyd gennym er mwyn cydymffurfio â'r safonau ar gael ar wefan y Cyngor ac mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau ychwanegol rydym wedi'u cymryd yn ystod 2025/26.

3.2 **Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth**

3.2.1 Caiff gweithwyr eu hatgoffa'n rheolaidd am Safonau'r Gymraeg a'u cyfrifoldebau. Rhoddir gwybod i weithwyr newydd am y safonau yn ystod y cyfnod sefydlu, a gofynnir iddynt gwblhau'r modiwl e-ddysgu ar ymwybyddiaeth iaith.

3.2.2 Yn ystod 2025/26, mae'r Portffolios wedi parhau i gynnal hunan-asesiadau yn erbyn amrywiaeth o Safonau'r Gymraeg i nodi meysydd i'w gwella.

3.2.3 Mae gennym broses gwirio gwasanaeth gorfodol ar gyfer e-ffurflenni CRM (Rheoli Cyswllt Cwsmer). Fel rhan o hyn, mae'n rhaid i rywun gadarnhau'n ffurfiol bod y cynnwys Cymraeg gyfwerth â'r cynnwys Saesneg cyn y gall e-ffurflen fynd yn fyw.

3.2.4 Yn ystod 2025/26, ymwelodd 128,326 o bobl â thudalennau Cymraeg y wefan, sy'n gynnydd o 80,481 yn ystod 2024/25. Mae 62 o gwsmeriaid (allan o tua 306,000) wedi dewis Cymraeg fel eu dewis iaith ar gyfer "Fy Nghyfrif". "Fy Nghyfrif" yw'r porth lle gall preswylwyr ddefnyddio adnoddau hunanwasanaeth a chadw golwg ar unrhyw geisiadau maen nhw wedi'u gwneud gyda'r Cyngor.

3.2.5 Rydym ni hefyd yn monitro nifer yr ymweliadau i'n safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2025/26 ar gael isod. Roedd hi'n flwyddyn ddistawach ar y cyfryngau cymdeithasol, felly mae rhai o'r niferoedd yn is na 2024/25. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau ymgysylltu cyffredinol ar gyfer yr holl dudalennau wedi cynyddu. Nid yw'r Cyngor wedi defnyddio X gymaint yn ystod 2025/26 felly mae'r ffigurau ar gyfer y tudalennau hynny'n sylweddol is yn gyffredinol.


**2025/26**

| | Facebook | | X (Twitter) | |
|---|---|---|---|---|
| **Ystadegyn** | **Cymraeg** | **Saesneg** | **Cymraeg** | **Saesneg** |
| Ymweliadau | 32,673 | 3,785,994 | 6,024 | 136,909 |
| Rhyngweithio â'r cynnwys (ymateb, sylw, rhannu) | 253 | 16,161 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Clicio ar ddolenni | 63 | 9,190 | 443 | 3,174 |
| Sylwadau | 149 | 3,830 | 50 | 930 |
| Cyfradd Ymgysylltu | 3.12% | 2.8% | 8.45% | 2.53% |

**2024/25**

| | Facebook | | X (Twitter) | |
|---|---|---|---|---|
| **Ystadegyn** | **Cymraeg** | **Saesneg** | **Cymraeg** | **Saesneg** |
| Ymweliadau | 55,768 | 4,275,571 | 13,653 | 385,407 |
| Rhyngweithio â'r cynnwys (ymateb, sylw, rhannu) | 163 | 24,496 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Clicio ar ddolenni | 36 | 15,396 | 421 | 7,091 |
| Sylwadau | 223 | 5,404 | 228 | 1,747 |
| Cyfradd Ymgysylltu | 2.93% | 1.95% | 4.74% | 2.37% |

3.2.6 Mae safleoedd cyfryngau cymdeithasol Saesneg yn cyfeirio ymwelwyr i'r safle Cymraeg, fel yn yr enghraifft ganlynol:



3.2.7 Mae dewis iaith cwsmeriaid yn cael ei nodi ar y cyswllt cyntaf gyda'r gwasanaethau. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn hyrwyddo'r "Cynnig Gweithredol" sy'n golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Yn 2025/26, cynhaliwyd cyfanswm o 7,540 o asesiadau oedolion. Mae tystiolaeth fod y Cynnig Rhagweithiol Cymraeg wedi cael ei gynnig ar gyfer 4,524 o asesiadau (60% o asesiadau oedolion yn y flwyddyn). Derbyniwyd y Cynnig Rhagweithiol Cymraeg ar gyfer 73 o asesiadau.

3.2.8 Gwasanaethau a gynigir yn Gymraeg:

**Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau**
Caiff pob seremoni ei chyflwyno gyda chyfarchiad dwyieithog.

| | 2023/24 | | 2024/25 | | 2025/26 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Saesneg | Cymraeg | Saesneg | Cymraeg | Saesneg | Cymraeg |
| Cofrestru genedigaethau | 28 | 2 | 23 | 5 (dwyieithog) | 25 | 0 |
| Hysbysiadau o Briodas | 1,233 | 22 | 1,108 | 10 (dwyieithog) | 1,228 | 0 |
| Seremonïau Priodas | 472 | 3 (gydag elfen o Gymraeg | 560 | 7 (yn Gymraeg neu'n ddwyieithog) | 551 | 12 |
| Cofrestru marwolaethau | Data heb ei adrodd o'r blaen | Data heb ei adrodd o'r blaen | Data heb ei adrodd o'r blaen | Data heb ei adrodd o'r blaen | 601 | 2 (dwyieithog) |

**Galwadau ffôn**

| | 2023/24 | | 2024/25 | | 2025/26 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Gyswllt | Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Saesneg | Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Gymraeg | Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Saesneg | Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Gymraeg | Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Saesneg | Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Gymraeg |
| Prif Ganolfan Gyswllt | 25,358 | 333 | 23,820 | 364 | 21,779 | 267 |
| Treth y Cyngor | 35,502 | 49 | 32,276 | 41 | 32,132 | 43 |
| Ardrethi Busnes | 2,318 | 7 | 1,975 | 8 | 2,239 | 6 |
| Gorfodaeth | 4,237 | 15 | 4,718 | 11 | 4,489 | 21 |
| Mân Ddyledwyr | 5,735 | 53 | 7,458 | 119 | 6,818 | 71 |

3.2.9 Mae'r Cyngor yn defnyddio Microsoft Teams i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau dros y we. Gall gweithwyr sy'n trefnu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau ar-lein gynnig cyfleusterau cyfieithu ar y pryd, gan sicrhau bod y Safonau perthnasol yn cael eu bodloni.

3.2.10 Rydym yn gweithio gyda chwmni ffilmiau i recordio gweithwyr yn siarad amrywiol lefelau o Gymraeg. Y nod yw dangos i ddarpar ymgeiswyr am swyddi pa lefelau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi gwag a hysbysebir, ac annog pawb i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio eu Cymraeg. Bydd y fideos hyn yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2026/27.

### 3.3 Cydymffurfio â Safonau Llunio Polisi

3.3.1 Rydym yn parhau i weithio gyda Phrifysgol Manceinion i wella ein hadnodd Asesu Effaith sy'n cynnwys canllawiau Comisiynydd y Gymraeg. Rydym wedi sefydlu gweithgor i wella ansawdd asesiadau o effaith.

3.3.2 Rydym yn darparu grantiau amrywiol a reolir gan sefydliadau eraill ar ein rhan. Mae ffurflenni cais a meini prawf yn ddwyieithog ac yn cynnwys datganiad yn nodi na fydd oedi cyn ymateb i geisiadau a gyflwynir yn Gymraeg.

3.3.3 Nodir isod nifer y ceisiadau am grant a wnaed drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2025/26:

| | 2025/26 | |
|---|---|---|
| **Grant** | **Cyfanswm y Ceisiadau** | **Nifer y ceisiadau a wnaed yn Gymraeg** |
| Cist Gymunedol | 53 | 1 |
| Cronfa Waddol Gymunedol | 4 | 0 |
| Cronfa'r Degwm | 6 | 0 |
| Cronfa Parc Adfer | 10 | 0 |

3.3.4 Mae manylion am sut rydym yn cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi ar gael ar ein gwefan. Mae cyngor ac arweiniad i weithwyr wedi'i gyhoeddi ar fewnrwyd y Cyngor.

### 3.4 Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol

3.4.1 Mae manylion llawn am sut rydym yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol ar gael ar ein gwefan.

3.4.2 Mae mwy na 99% o weithwyr wedi cwblhau'r archwiliad sgiliau'r Gymraeg. Rydym yn dal i dargedu gweithwyr sydd wedi asesu nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, er mwyn iddynt ailasesu eu sgiliau neu fynychu hyfforddiant. Mae hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer y gweithwyr a ddywedodd nad oedd

ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, o 33.10% o weithwyr ym mis Mawrth 2025 i 28.67% ym mis Mawrth 2026.

3.4.3 Mae'r Polisi Cymraeg yn y Gweithle wedi cael ei ddiweddaru. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r nod o gynyddu nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg ac annog ein gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a thu allan i'r gwaith. Mae'r canlynol wedi'i gynnwys yn y polisi hwn:

- Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar gyfer ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg os ydynt yn bodloni meini prawf hanfodol y swydd.
- Ni hysbysebir swyddi gwag heb asesiad cyfredol (yn y pum mlynedd diwethaf) o'r sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y swydd.

3.4.4 O ran y contractau a gyflwynwyd i weithwyr newydd yn ystod 2025/26, cafodd 4 ohonynt eu darparu yn y Gymraeg. Ni ddarperir slipiau cyflog yn Gymraeg. Mae gwaith yn cael ei wneud i lunio slipiau cyflog dwyieithog erbyn diwedd 2026.

3.4.5 Mae dogfennau arfarnu wedi eu cyhoeddi ar y fewnrwyd yn y Gymraeg. Mae gan weithwyr y dewis o gael cyfweliadau/cyfarfodydd disgyblu yn y Gymraeg. Ni chynhaliwyd unrhyw wrandawiad cwyno na disgyblu yn y Gymraeg yn 2025/26.

3.4.6 Caiff y polisïau canlynol eu cyhoeddi yn Gymraeg:

- Polisi Rheoli Presenoldeb
- Manteision Gweithio i Gyngor Sir y Fflint
- Polisi Galluogrwydd
- Polisi Diogelu Corfforaethol
- Polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb
- Ffurflen gais Gweithio'n Hyblyg
- Polisi Oriau Gweithio'n Hyblyg
- Polisi Maethu i Sir y Fflint
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle

### 3.5 Trefniadau monitro

3.5.1 Mae ein Rhwydwaith yr Iaith yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Portffolio. Mae'r Rhwydwaith yn cwrdd bob chwarter. Ymhlith yr eitemau sefydlog ar y rhaglen mae hyfforddiant y Gymraeg, proffil sgiliau Cymraeg gweithwyr, hyrwyddo'r Gymraeg a chwynion.

3.5.2 Caiff materion sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau eu trafod bob mis gyda'r Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid (fel arweinydd y Gymraeg) a bob

blwyddyn gyda'n Tîm Prif Swyddogion, neu'n amlach os oes angen. Cyflwynir yr adroddiad blynyddol i'r Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth cyn ei fabwysiadu.

## 4.0 Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

4.1 Anogir gweithwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg drwy fynychu hyfforddiant a ddarperir gan y coleg lleol. Cefnogir gweithwyr i fynychu dosbarthiadau o fewn amser gwaith. Cynhelir sesiynau "Panad a Sgwrs" yn swyddfeydd y Fflint ac Ewlo i gefnogi dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd diogel. Siaradwyr Cymraeg sy'n hwyluso'r sesiynau hyn.

4.2 Mae ein Pencampwyr Cymraeg yn cefnogi dysgwyr, sy'n ategu gwersi ffurfiol. Mae rhai Pencampwyr Cymraeg wedi cyflwyno slot wythnosol yn eu cyfarfodydd Tîm, er mwyn rhannu geiriau ac ymadroddion newydd gyda'u cydweithwyr.

4.3 Mae Cysgliad (Geiriadur, gwiriwr sillafu a gramadeg Cymraeg) ar gael ac wedi'i uwchlwytho ar ddyfais pob gweithiwr. Caiff ei uwchlwytho'n awtomatig ar ddyfeisiau gweithwyr newydd.

4.4 Mae adnoddau i gefnogi dysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg ar gael ar y fewnrwyd ar dudalen ddynodedig ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Caiff gweithgareddau a gynhelir yn y gymuned i gefnogi dysgwyr eu hyrwyddo i'r gweithlu.

4.5 Rydym wedi dechrau defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn ein negeseuon cyfryngau cymdeithasol Saesneg, gan godi proffil yr iaith yn naturiol.



4.6 Mae Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i sefydlu i adolygu argymhellion Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg. Rydym yn gweithio'n agos gyda Chynghorau Cymuned eraill am eu barn am yr argymhellion a nodir yn adroddiad Comisiynydd y Gymraeg.

4.7 Mae disgyblion o ysgolion cynradd yn gweithio gyda'r Tîm Busnes i ymchwilio a hybu'r Gymraeg yn y gymuned. Mae disgyblion wedi bod yn cyfweld busnesau i nodi rhwystrau a meddwl am syniadau i wella'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd cam nesaf y prosiect yn gweld disgyblion yn creu adnoddau i hyrwyddo'r Gymraeg, a gaiff eu rhannu gyda busnesau.

4.8 **Addysg ac Ieuenctid**

4.8.1 Mae Tîm Datblygu Chwarae Sir y Fflint yn parhau i helpu i integreiddio teuluoedd sy'n ffoaduriaid i'w cymunedau newydd a chyflwyno plant a theuluoedd i'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Caiff hyn ei wneud yn bennaf trwy'r cynlluniau chwarae mynediad agored a ddarperir yn ystod gwyliau'r ysgol, lle gall plant gymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae dewis rhydd gyda phlant lleol. Mae'r sesiynau hyn yn darparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle caiff rhwystrau iaith eu lleihau trwy chwarae, gan helpu plant i feithrin cyfeillgarwch, hyder ac ymdeimlad o berthyn yn eu cymunedau.

4.8.2 Yn ogystal â'r rhaglen cynllun chwarae ehangach, mae'r tîm hefyd yn cynnig darpariaeth benodol ym Mostyn, sydd wedi cefnogi teuluoedd sydd wedi adleoli i'r ardal yn ddiweddar. Mae'r sesiynau hyn yn cynnig cyfleoedd i blant archwilio deunyddiau chwarae, mannau lleol ac elfennau diwylliannol Cymreig mewn lleoliad hamddenol ac anffurfiol, gan helpu teuluoedd i fod yn fwy cyfarwydd â'u cymuned.

4.8.3 Ynghyd â'r gwaith hwn yn y gymuned, mae'r Tîm Datblygu Chwarae yn darparu sesiynau Lles Chwarae mewn ysgolion. Mae'r sesiynau hyn yn targedu plant a allai fod yn profi rhwystrau ychwanegol i les a chyfranogiad, gan gynnwys plant â Saesneg fel Iaith Ychwanegol, plant sydd wedi profi trawma, neu blant y mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod wedi effeithio arnynt. Trwy ddulliau gwaith chwarae a chyfleoedd chwarae wedi'u harwain gan blant, mae sesiynau Lles Chwarae yn cynnig lleoedd diogel i blant feithrin perthnasoedd, rheoleiddio emosiynau a datblygu hyder.

4.8.4 Ar draws yr holl waith hwn, mae chwarae yn gweithredu fel iaith gyffredinol. Mae'n galluogi plant o wahanol gefndiroedd diwylliannol i gysylltu â'i gilydd wrth gynnig cyfleoedd i gyflwyno'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn ffordd naturiol a hygyrch. Mae'r dull hwn yn helpu i gefnogi integreiddio, cryfhau cysylltiadau cymunedol a hybu ymdeimlad o berthyn i blant a theuluoedd sy'n ymgartrefu yn Sir y Fflint.

4.8.5 O gyfanswm o saith gweithiwr parhaol llawn amser a saith gweithiwr wrth gefn, mae chwech yn siaradwyr Cymraeg ac mae pump yn dysgu Cymraeg. Mae diwylliant iaith Gymraeg cryf wedi'i sefydlu yn y Tîm ac anogir pob aelod i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, waeth pa mor rhugl ydynt. Mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o ryngweithio dyddiol yn y Tîm bellach.

4.8.6 Ar ôl integreiddio amgylchedd naturiol Cymraeg ei iaith yn llwyddiannus yng Nghlybiau Ieuenctid Saltney a Chei Connah, mae pecynnau i hyrwyddo'r Gymraeg wedi'u rhannu â'r Clybiau Ieuenctid eraill. Adroddir ar ddefnydd o'r Gymraeg bob wythnos ar draws y Clybiau Ieuenctid bellach ac mae wedi'i integreiddio fel rhan o'r broses werthuso wedi'i safoni.

4.8.7 Trwy ddefnyddio'r lle a rennir yng Nghanolfan Ieuenctid Saltney, rydym wedi llwyddo i ymgysylltu â nifer o bobl ifanc yn ystod y gorgyffwrdd amser cinio, pan fydd pobl ifanc yn cyrraedd yr ysgol a phan fyddant yn gadael. Mae'r bobl ifanc wedi gallu defnyddio'r adnoddau yn y siop goffi i ennill sgiliau cyflogadwyedd yn ogystal â sgiliau rhyngbersonol, a hyn i gyd gyda'r Gymraeg yn amlwg. Mae hyn wedi dangos defnydd naturiol o'r Gymraeg mewn lleoliad unigryw y mae modd uniaethu'n well ag ef.

4.8.8 Trefnodd y Gwasanaeth Ieuenctid daith i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Bu'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgaredd helfa sborion o gwmpas y Maes er mwyn gweld elfennau helaeth diwylliant Cymru, o fwyd i'r celfyddydau creadigol.

4.8.9 Mae ysgolion cynradd Sir y Fflint yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol gydag amcanion y Siarter Iaith a Chymraeg Campus, gan gryfhau cyfleoedd i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Hyd yma, mae pedair ysgol wedi cyflawni gwobr Aur Cymraeg Campus, mae deuddeg ysgol wedi cyflawni'r wobr Arian, ac mae 51 ysgol wedi cyflawni lefel Efydd.

4.8.10 Mae nifer o ysgolion eraill yn aros am wiriad yn ystod tymor yr haf ar gyfer y wobr Efydd a'r wobr Arian, a bydd un o'r ysgolion lefel Aur yn cael ei hasesu ar gyfer cydnabyddiaeth Ôl Aur. Ar draws pob ysgol, mae Criwiau Cymraeg yn chwarae rôl weithredol wrth ffurfio blaenoriaethau'r Gymraeg a chynllunio gwasanaethau. Maen nhw'n arbennig o effeithiol mewn sawl lleoliad yn ymgysylltu â chymuned ehangach yr ysgol a dylanwadu arni.

4.8.11 Mae'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd gyntaf i gael ei hadeiladu gan y Cyngor, ers iddo gael ei sefydlu ym 1996, wedi'i chwblhau. Mae Ysgol Gymraeg Croes Atti yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a adeiladwyd i'r pwrpas ar gyfer 240 o ddisgyblion ac agorodd ei drysau ym mis Tachwedd 2025. Mae'n cynnwys lleoedd pwrpasol ar gyfer gofal plant blynyddoedd cynnar, defnydd cymunedol a rhaglen drochi'r Gymraeg – a phopeth wedi'u cynllunio i gefnogi dyfodol dwyieithog ffyniannus.




## 4.9 Gwasanaethau Cymdeithasol

4.9.1 Mae hyrwyddo'r Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith ymhlith staff a defnyddwyr gwasanaeth yn rhan allweddol o gynyddu'r defnydd o'r iaith a chefnogi staff i ddysgu Cymraeg.
Mae ein gwasanaethau oedolion yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi bob blwyddyn ac mae Menter Iaith yn darparu cefnogaeth i'n cartrefi gofal a'n cynlluniau gofal ychwanegol gael hwyl wrth nodi'r diwrnod gyda gweithgareddau crefft, bwydlenni thema Cymreig, creu fideos difyr ac annog preswylwyr a staff i gyfarch ei gilydd yn Gymraeg.

4.9.2 Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhan o beilot Prosiect ARFer, menter sy'n seiliedig ar wyddorau ymddygiadol ac a ddatblygwyd yng Nghanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae wedi'i gynllunio i helpu cydweithwyr i newid eu harferion gwaith bob dydd yn raddol fel bod y Gymraeg yn dod yn rhan naturiol, arferol o gyfathrebu.

4.9.3 Yn ddiweddar, rydym wedi ailgyflwyno'r sesiwn Paned a Sgwrs amser cinio yn swyddfeydd Tŷ Dewi Sant, er mwyn darparu lle cyfarfod anffurfiol i ddysgwyr o bob gallu i ddod at ei gilydd ac ymarfer eu sgiliau Cymraeg llafar.

4.9.4 Mae gweithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn manteisio ar yr adnoddau a ddarperir gan Gofal Cymdeithasol Cymru, gan gynnwys yr adnoddau fideo sy'n helpu ein gweithlu i ddeall pam mae iaith yn fwy o lawer nag adnodd cyfathrebu. Pan fo rhywun yn siarad eich iaith chi, mae'n haws mynegi eich teimladau, disgrifio eich emosiynau a theimlo eich bod yn perthyn. Mae hyn hyd yn oed yn fwy pwysig i bobl sy'n ddiamddiffyn, yn byw gydag anableddau neu mewn iechyd gwael ac mae'n tanlinellu'r rheswm dros y canllawiau sy'n benodol i'r sector, sydd wedi'u hamlinellu yn Fframwaith Mwy Na Geiriau.

## 4.10 Digwyddiadau

4.10.1 Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau allweddol i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Eisteddfod Genedlaethol – buom yn hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg yn ystod yr Eisteddfod, gan gynnwys Safonau Masnach, Gwasanaethau Cefn Gwlad, Tîm Chwarae, Gwasanaethau Cymdeithasol, Twristiaeth a'r Gwasanaeth Ieuenctid. Fe wnaethom ddefnyddio'r cyfle hwn i arddangos gwaith y Siarter Iaith a myfyrwyr Criw Cymraeg hefyd. Ein Pencampwyr Cymraeg, siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg fu'n gweithio ar y stondin. Cafwyd adloniant gan Ysgol Maes Garmon.
- Diwrnod Shwmae/Su'mae – anogwyd pob aelod o staff i ddweud rhywbeth yn Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn ystod cyfarfodydd.
- Diwrnod Hawliau'r Gymraeg – fe wnaethom gymryd rhan yn y digwyddiad hwn, gan roi negeseuon ar ein cyfryngau cymdeithasol i annog siaradwyr Cymraeg i gysylltu â ni yn Gymraeg.
- Dydd Miwsig Cymru –
    - Buom yn chwarae cerddoriaeth Gymraeg ar linell dal y lein y Ddesg Gymorth TG.
    - Bu mwy na 150 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn sesiwn ar gerddoriaeth Gymraeg a sut gall cerddoriaeth eu cefnogi i ddysgu, defnyddio a phrofi'r Gymraeg.
- Diwrnod y Llyfr – buom yn defnyddio fideo i hyrwyddo llyfrau Cymraeg, grwpiau sgwrsio i ddysgwyr Cymraeg a gweithgareddau Cymraeg yn ein llyfrgelloedd.




- Dydd Gŵyl Dewi – dathlwyd diwrnod ein nawddsant yn ein cartrefi gofal a'n cynlluniau gofal ychwanegol, a chynhaliwyd gorymdaith a pherfformiad yng nghanol tref y Fflint. Fe wnaethom greu fideo i annog pawb i gymryd rhan a rhoi cynnig ar ddweud "Dydd Gŵyl Dewi Hapus". Bu busnesau lleol, ysgolion, cartrefi gofal, gwirfoddolwyr o'r Gwasanaethau Cefn Gwlad,

Llyfrgelloedd a Hamdden Gwella, Aelodau Etholedig a gweithwyr yn cymryd rhan yn y fideo. Daeth Dydd Gŵyl Dewi i ben gyda goleuo ffagl y ddraig ym Magillt.










4.9.2 Rydym yn darparu grant i Fenter Iaith Fflint a Wrecsam er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn y Sir a chynnig gweithgareddau Cymraeg i deuluoedd a dysgwyr. Rydym hefyd yn darparu grant i Fudiad Meithrin i gefnogi darpariaeth y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Trwy eu gweithgareddau, mae'r ddau sefydliad yn cyfrannu at y targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cael eu haddysg statudol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddau yn aelodau allweddol o Fforwm y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor.

## 5.0 Sgiliau a Hyfforddiant y Gymraeg

5.1 Mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hunanasesu yn erbyn Fframwaith Hyfedredd y Gymraeg (Atodiad 1). Mae proffil sgiliau Cymraeg gweithwyr yn ôl Portffolio wedi'i nodi yn Atodiad 2. Trwy weithredu ein Strategaeth Sgiliau'r Gymraeg, rydym yn parhau i leihau nifer a chanran y gweithwyr sy'n dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl. Gostyngodd hyn rhywfaint, o 985

(33.10%) o weithwyr ym mis Mawrth 2025 i 871 (28.67%) ym mis Mawrth 2026. Ym mis Mawrth 2021, dywedodd 992 (35.45%) o weithwyr nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl.

5.2 Mae nifer a chanran y gweithwyr sy'n dweud bod eu sgiliau Cymraeg ar lefel 4 a 5 yn cynyddu, fel y gwelir yn y tabl canlynol.

| Sgiliau Cymraeg | 2023 | | 2024 | | 2025 | | 2026 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Lefel 4 | 101 | 3.42% | 102 | 3.40% | 105 | 3.53% | 108 | 3.55% |
| Lefel 5 | 89 | 3.02% | 101 | 3.36% | 113 | 3.80% | 127 | 4.18% |

5.3 Mae gweithgareddau i ddatblygu gweithlu dwyieithog yn cynnwys mentrau i wella sgiliau ein gweithlu presennol ac i ddenu a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg.

Ar gyfer gweithwyr presennol, rydym wedi bod yn:

- Targedu gweithwyr nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, er mwyn sicrhau eu bod yn cwblhau'r cwrs blasu e-ddysgu Iaith Gwaith a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol Cymraeg Gwaith.
- Parhau i ganiatáu i weithwyr fynychu hyfforddiant sgiliau Cymraeg.
- Darparu hyfforddiant Cymraeg fel rhan o hyfforddiant Arweinwyr Chwarae.
- Parhau i dargedu hyfforddiant at weithwyr sy'n dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl.

5.4 **Hyfforddiant sgiliau Cymraeg**

Mae hyrwyddo hyfforddiant y Gymraeg wedi parhau ar draws y gweithlu. Rhoddir amser gyda thâl i weithwyr fynd ar gyrsiau Cymraeg.

**Nifer y gweithwyr sy'n cael hyfforddiant sgiliau'r Gymraeg.**

| Lefel | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 20204/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
| Sgiliau Ieithyddol Sylfaenol | 11 | 4 | 64 | 129 | 89 | 0 |
| Mynediad | 28 | 28 | 29 | 28 | 21 | 16 |
| Sylfaen | 10 | 8 | 7 | 13 | 10 | 5 |
| Canolradd | 1 | 6 | 9 | 2 | 4 | 3 |
| Uwch | 6 | 3 | 1 | 2 | 3 | 3 |
| Rhugl | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **59** | **49** | **110** | **174** | **127** | **27** |

5.5 Er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i ni adrodd ar y canlynol:

i) nifer y gweithwyr a fynychodd gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.
ii) os oedd fersiwn Gymraeg o'r cwrs yn cael ei chynnig – nifer a % y gweithwyr a fynychodd y fersiwn Gymraeg.

5.6 Mae yna wybodaeth ar dudalennau mewnrwyd y Cyngor i hysbysu gweithwyr os ydynt yn dymuno cwblhau unrhyw rai o'r cyrsiau'n Gymraeg i gysylltu â'r Tîm Dysgu a Datblygu Corfforaethol. Mae gan y Cyngor gytundeb anffurfiol gyda Chyngor Gwynedd fod gweithwyr yn mynychu eu cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Mae nifer y gweithwyr a fynychodd gyrsiau penodol yn Gymraeg wedi'i nodi yn y tabl canlynol:

**Proffil hyfforddiant a ddarparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg**

| | 2023/24 | | 2024/25 | | 2025/26 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o Hyfforddiant** | **Nifer a fynychodd y fersiwn Gymraeg** | **Nifer a fynychodd y fersiwn Saesneg** | **Nifer a fynychodd y fersiwn Gymraeg** | **Nifer a fynychodd y fersiwn Saesneg** | **Nifer a fynychodd y fersiwn Gymraeg** | **Nifer a fynychodd y fersiwn Saesneg** |
| Cwynion a gweithdrefnau disgyblu | 0 | 153 | 0 | 8 | 0 | 7 |
| Delio â'r cyhoedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd a Diogelwch | 0 | 136 | 0 | 42 | 0 | 22 |
| Sefydlu | 0 | 24 | 0 | 0 | 0 | 17 |
| Rheoli Perfformiad | 0 | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Recriwtio a Chyfweld | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

5.7 Cwrs Ymwybyddiaeth Iaith – mae 469 o weithwyr wedi cwblhau ein modiwl e-ddysgu. Mae cwrs "Welsh matters for everyone" a chwrs dilynol i reolwyr, sef "Welsh matters for managers" ar gael hefyd. Mae'r cwrs yn cael ei ddarparu

gan Iaith, y Ganolfan Cynllunio Iaith. Nod y rhaglenni hyn yw dangos pwysigrwydd defnyddio'r iaith yn y gweithle a sut i annog pobl i wneud hynny.

5.8 Mae proses ar waith i asesu'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer swyddi newydd. Datblygwyd dull o gofnodi'r nifer o swyddi sydd wedi eu hasesu fel dymunol neu hanfodol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgan nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle:

i) Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol.
ii) Roedd angen dysgu Cymraeg ar ôl penodiad.
iii) Roedd y Gymraeg yn ddymunol.
iv) Nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.

Mae'r data ar gyfer 2025/26 wedi'i nodi yn y tabl canlynol:

| Categori | Nifer y swyddi wedi'u categoreiddio | Canran y swyddi wedi'u categoreiddio |
|---|---|---|
| Y Gymraeg yn hanfodol | 0 | 0 |
| Y Gymraeg yn ddymunol | 23 | 100 |
| Angen dysgu Cymraeg | 0 | 0 |
| Dim angen sgiliau Cymraeg | 0 | 0 |

O gymharu â'r blynyddoedd blaenorol:

| Categori | Nifer | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 |
| Y Gymraeg yn hanfodol | 3 | 4 | 1 | 5 | 3 | 0 |
| Y Gymraeg yn ddymunol | 2 | 2 | 0 | 27 | 43 | 23 |
| Angen dysgu Cymraeg | 9 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Dim angen sgiliau Cymraeg | 46 | 46 | 40 | 13 | 0 | 0 |

## 6.0 Cwynion

6.1 Mae gwefan y Cyngor yn cynghori pobl bod y polisi Cwynion hefyd yn berthnasol i gwynion am y Gymraeg, ac mae unrhyw gwynion o'r fath yn cael

eu copïo fel mater o drefn i'r Ymgynghorydd Polisi Strategol i'w monitro. Mae'r weithdrefn Gwynion i'w gweld yma.

6.2 Mae cwynion am y Gymraeg yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd Rhwydwaith yr Iaith.

6.3 Yn ystod 2025/26, cafwyd dwy gŵyn uniongyrchol:

1. Ni chafodd cwsmer ymateb yn Gymraeg wrth ffonio llinell Gymraeg y Ganolfan Gyswllt. Ymddiheurwyd wrth y cwsmer a darparwyd eglurhad. Yn anffodus, nid oedd ymgynghorydd sy'n siarad Cymraeg ar gael ar adeg yr alwad. O ganlyniad, cafodd yr alwad ei throsglwyddo i ddarparwr trydydd parti sy'n cefnogi'r Cyngor gydag ymdrin â galwadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai'r alwad fod wedi cael ei hateb yn Gymraeg a dylai'r cwsmer fod wedi cael cynnig i rywun eu ffonio'n ôl. Mae'r darparwr trydydd parti wedi cyfeirio at hyn fel diffyg hyfforddiant ac wedi mynd i'r afael â'r mater gyda'r asiant wnaeth ddelio â'r alwad.

2. Cwynodd cwsmer nad oedd y Gymraeg yn gywir ac nad oedd yn cyd-fynd â'r Saesneg ar sticer ar fin brown. Mae'r sticer wedi'i addasu ac mae'r Gymraeg yn gywir. Caiff unrhyw sticeri eraill mae'r Cyngor yn cael gwybod eu bod yn anghywir eu disodli, pan roddir gwybod i'r adran Gwasanaethau Stryd.

6.4 Gwnaed un gŵyn yn uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg. Nodir manylion y gŵyn hon isod:

| Manylion | Canlyniad a'r camau a gymerwyd |
|---|---|
| Cafodd cwsmer ymateb Saesneg i ymholiad a gyflwynwyd yn Gymraeg i'r Tîm Rhyddid Gwybodaeth. | Atgoffwyd y tîm am bwysigrwydd ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg. Roedd y system berthnasol eisoes wedi'i diweddaru i ail-lenwi'r meysydd "Response Given" a "Draft Response" gyda ***Response Must Be in WELSH***, pan fo'r cwsmer wedi mynegi mai Cymraeg yw'r dewis iaith.<br>Penderfynodd y Comisiynydd i beidio â chymryd camau pellach. |

## 7.0 Blaenoriaethau’r Dyfodol a Chamau Gweithredu

7.1 Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2026/27:

- Datblygu Hwb Cymraeg newydd ar y fewnrwyd.
- Parhau i gwblhau hunanasesiadau yn erbyn Safonau’r Gymraeg i nodi meysydd diffyg cydymffurfio a lle mae angen i ni wella.
- Parhau i adolygu argymhellion Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg er mwyn nodi cyfleoedd pellach i gyflwyno enwau Cymraeg yn y Sir.
- Datblygu hyder gweithwyr i ddefnyddio eu Cymraeg - beth bynnag fo lefel eu sgiliau.

## Atodiad 1 ADNODD HUNANASESU SGILIAU'R GYMRAEG

| | GWRANDO / SIARAD | DARLLEN / DEALL | YSGRIFENNU |
|---|---|---|---|
| **LEFEL 0** | ● Dim gallu sylweddol | ● Dim gallu sylweddol | ● Dim gallu sylweddol |
| **LEFEL 1** | **Rwy'n gallu:**<br>● Ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau ac ati.<br>● Cyfarch a deall cyfarchiad.<br>● Defnyddio geiriau ac ymadroddion sylfaenol a ddefnyddir bob dydd, e.e. diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi ac ati.<br>● Deall / trosglwyddo ceisiadau llafar syml o fath arferol / cyfarwydd / rhagweladwy gan ddefnyddio iaith syml, e.e. 'Ga i siarad â…'.<br>● Nodi ceisiadau syml a dilyn cwestiynau / ceisiadau ychwanegol mewn ffordd gyfyngedig | **Rwy'n gallu:**<br>● Deall geiriau a brawddegau allweddol syml ar faterion cyfarwydd / rhagweladwy sy'n ymwneud â maes fy swydd fy hun, e.e. ar arwyddion, mewn llythyrau. | **Rwy'n gallu:**<br>● Llenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml, e.e. dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg, ac ati. |
| **LEFEL 2** | **Rwy'n gallu:**<br>● Deall prif bwyntiau sgyrsiau Cymraeg yn y gwaith<br>● Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol<br>● Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml<br>● Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyhyd â bod y pwnc yn un cyfarwydd<br>● Deall cyfarwyddiadau pan gaiff iaith syml ei defnyddio | **Rwy'n gallu:**<br>● Deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a phrif bwyntiau gwybodaeth anarferol ar faterion cyfarwydd sy'n gysylltiedig â maes fy swydd fy hun, e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni, ac ati. | **Rwy'n gallu:**<br>● Ysgrifennu nodiadau / llythyrau / negeseuon syml byr ar ystod gyfyngedig o bynciau rhagweladwy sy'n gysylltiedig â'm profiadau personol neu faes fy swydd fy hun |
| **LEFEL 3** | **Rwy'n gallu:**<br>● Deall llawer o'r hyn a ddwedir mewn swyddfa, cyfarfod ac ati.<br>● Cynnal sgwrs syml ar bwnc sy'n gysylltiedig â gwaith, ond efallai y bydd angen troi i'r Saesneg i drafod / adrodd ar wybodaeth gymhleth neu dechnegol<br>● Ateb cwestiynau rhagweladwy neu ffeithiol<br>● Cymryd a throsglwyddo'r mwyafrif o negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw<br>● Cynnig cyngor ar faterion syml sy'n ymwneud â'r swydd | **Rwy'n gallu:**<br>● Sganio testunau am wybodaeth berthnasol<br>● Deall tipyn o ohebiaeth arferol ac anarferol sy'n gysylltiedig â'r swydd, llenyddiaeth ffeithiol, ac ati pan ddefnyddir iaith safonol. | **Rwy'n gallu:**<br>● Ysgrifennu llythyr manwl / disgrifiadol yn ymwneud â maes fy swydd fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio<br>● Gwneud nodiadau eithaf cywir tra bydd rhywun yn siarad |
| **LEFEL 4** | **Rwy'n gallu:**<br>● Cynnal sgwrs estynedig am dipyn o bopeth yn ymwneud â gwaith neu roi cyflwyniad yn gymharol rugl gan allu mynegi fy hun yn eithaf eang ond efallai y byddai angen troi at y Saesneg i ateb cwestiynau annisgwyl neu egluro pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol<br>● Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd a seminarau o fewn eich maes gwaith<br>● Dadlau o blaid/yn erbyn achos | **Rwy'n gallu:**<br>● Darllen a deall gwybodaeth yn eithaf cyflym cyn belled nad oes geirfa anarferol yn cael ei ddefnyddio ac nad yw'r wybodaeth yn benodol gymhleth neu dechnegol | **Rwy'n gallu:**<br>● Paratoi llythyrau ffurfiol o lawer o fathau cyfarwydd fel ymholiadau, cwynion a cheisiadau<br>● Gwneud nodiadau eithaf cywir mewn cyfarfodydd neu gyfarwyddiadau syml<br>● Ysgrifennu adroddiad / dogfen yn ymwneud â maes fy swydd fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio |
| **LEFEL 5** | **Rwy'n gallu:**<br>● Cynghori / siarad am faterion arferol, anarferol, cymhleth, dadleuol neu sensitif sy'n gysylltiedig â fy mhrofiadau fy hun<br>● Rhoi cyflwyniad/ arddangosiad<br>● Delio'n hyderus gyda chwestiynau anghyfeillgar neu annisgwyl<br>● Cynnal trafodaethau gan ddefnyddio termau cymhleth / technegol<br>● Cynnal cyfweliadau â'r cyfryngau | **Rwy'n gallu:**<br>● Deall syniadau cymhleth a gwybodaeth a fynegir mewn cyd-destun neu iaith arbenigol mewn dogfennau, adroddiadau, gohebiaeth ac erthyglau ac ati. | **Rwy'n gallu:**<br>● Ysgrifennu llythyrau ar unrhyw bwnc<br>● Ysgrifennu nodiadau cywir / llawn mewn cyfarfodydd wrth barhau i ddilyn trafodaethau a chymryd rhan ynddynt<br>● Ysgrifennu adroddiadau / dogfennau yn hyderus, ond efallai bydd angen eu gwirio am fân wallau o ran sillafu a gramadeg |

Atodiad 2: Proffil sgiliau Cymraeg y gweithlu ym mis Mawrth 2026

| Portffolio | Nifer y Staff | Lefel 0 | | Lefel 1 | | Lefel 2 | | Lefel 3 | | Lefel 4 | | Lefel 5 | | Heb gofnodi | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Prif Weithredwr | 60 | 6 | 10.00% | 37 | 61.67% | 7 | 11.67% | 3 | 5.00% | 4 | 6.67% | 3 | 5.00% | 0 | 0.00% |
| Addysg ac Ieuenctid | 303 | 64 | 21.12% | 117 | 38.61% | 51 | 16.83% | 25 | 8.25% | 18 | 5.94% | 27 | 8.91% | 1 | 0.33% |
| Llywodraethu | 202 | 17 | 8.42% | 125 | 61.88% | 36 | 17.82% | 4 | 1.98% | 8 | 3.96% | 11 | 5.45% | 1 | 0.50% |
| Tai a Chymunedau | 361 | 115 | 31.86% | 164 | 45.43% | 41 | 11.36% | 13 | 3.60% | 13 | 3.60% | 15 | 4.16% | 0 | 0.00% |
| Pobl ac Adnoddau | 197 | 16 | 8.12% | 113 | 57.36% | 39 | 19.80% | 8 | 4.06% | 10 | 5.08% | 11 | 5.58% | 0 | 0.00% |
| Lleoedd a Thwf | 216 | 18 | 8.33% | 136 | 62.96% | 34 | 15.74% | 10 | 4.63% | 10 | 4.63% | 8 | 3.70% | 0 | 0.00% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,173 | 359 | 30.61% | 533 | 45.44% | 164 | 13.98% | 37 | 3.15% | 36 | 3.07% | 41 | 3.50% | 3 | 0.26% |
| Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth | 526 | 276 | 52.47% | 177 | 33.65% | 40 | 7.60% | 8 | 1.52% | 9 | 1.71% | 11 | 2.09% | 5 | 0.95% |
| **Cyfanswm** | **3,038** | **871** | **28.67%** | **1,402** | **46.15%** | **412** | **13.56%** | **108** | **3.55%** | **108** | **3.55%** | **127** | **4.18%** | **10** | **0.33%** |